# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Ebrill 2ail, 2020

**COVID-19 Coronavirus – y sefyllfa diweddaraf.**

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae diwedd tymor y gwanwyn eleni yn teimlo'n wahanol iawn i ddiwedd tymor arferol am resymau amlwg. Mae coridorau'r ysgol a'r maes chwarae yn fud ers bythefnos a theimlad rhyfedd a thrist oedd cloi gatiau'r ysgol wythnos yma am y tro olaf am gyfnod amhenodol.

Mae'r pandemig COVID-19 yn argyfwng fyd-eang ac rydym oll yn derbyn ac yn sylweddoli maint ein cyfrifoldeb wrth gyfrannu at yr ymgyrch i leihau lledi'r feirws drwy aros adref a phellhau cymdeithasol.

Mae'r argyfwng wedi arwain at sgil-effeithiau pell-gyrhaeddol; canslo arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch eleni ac oblygiadau pellach i ddisgyblion Blwyddyn 10 a 12 sydd yng nghanol eu cyrsiau arholiad; gorfod canslo teithiau yn ogystal a chanslo Eisteddfodau yr Urdd a'r Genedlaethol. Mae hyn yn siom ac yn ergyd i lawer o ddisgyblion a staff ond rydym oll yn deall fod rhaid cymryd y camau hyn er mwyn goresgyn yr argyfwng iechyd difrifol.

Rydym oll wedi gorfod dod i arfer â gweithio o adref yn gyflym gan fanteisio ar ddulliau cyfathrebu electroneg sy'n caniatau athrawon i osod gwaith a disgyblion i gyflawni gwaith. Fe fyddwn yn darparu mwy o waith i ddisgyblion Bl 7 – 9 ar fore Llun, Ebrill 20fed a chaiff disgyblion Blwyddyn 10 a 12 arweiniad pellach ar sut i symud ymlaen gyda'u astudiaethau cyrsiau arholiad. Anogwch eich plentyn i edrych yn rheolaidd ar eu cyfrifon edulink a Teams ar gyfer negeseuon pwysig gan eu hathrawon. Ar ôl y gwyliau fe fyddwn yn cysylltu â rhieni y dysgwyr hynny sydd ddim wedi bod yn cyfathrebu neu'n anfon gwaith i'w athrawon hyd yma.

Bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn derbyn pecyn o wybodaeth yn ystod yr wythnosau nesaf fydd yn cynnwys manylion am gyrsiau Uwch Gyfrannol a BTEC Lefel 3, ac felly i'r disgyblion hynny sy'n bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yn nhymor yr hydref cânt gychwyn paratoi drwy ddarllen cefndirol a chyflawni ychydig o waith ymchwil perthnasol fydd yn ddechrau da i'w astudiaethau yn y Chweched Dosbarth.

Mae prysurdeb gwaith ysgol yn parhau er nad yw'r safle ar agor felly cofiwch gysylltu gyda'r aelod perthnasol o staff drwy ebost am gymorth pe bai angen, mae rhestr o enwau a chyfeiriadau ebyst ein Penaethiaid Blwyddyn ac aelodau o dîm lles yr ysgol ar waelod y llythyr hwn. Rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Dr Redknap sydd yn cynnig cefnogaeth lawn i'r ysgol ac rydym wrthi yn cynnal cyfweliadau ar-lein ar gyfer swyddi yn mis Medi.

Y pwyslais dros y bythefnos nesaf serch hynny yw ymlacio rhywfaint ac i gamu yn ôl o waith ysgol. Anogwch eich plant i wneud gweithgareddau hwyliog a chreadigol ac i ymlacio yn ystod gwyliau'r Pasg. Fe

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes


anfonwn ambell syniad atoch maes o law. Bu'n gyfnod anodd a heriol i bawb yn ddiweddar wrth geisio digymod â threfniadau newydd o weithio a chyd-fyw adref a mae'n bwysig fod athrawon, rhieni a disgyblion yn cael gorffwys ac ymlacio yn ystod cyfnod y gwyliau.

Gobeithio fod pob aelod o gymuned yr ysgol yn cadw'n gorfforol ac yn feddyliol iach dan yr amodau anghyffredin o argyfwng cenedlaethol a fod pawb yn llwyddo i gadw at ofynion y Llywodraeth drwy ymbellhau cymdeithasol ac aros adref. Mae hyn yn golygu na ddylai disgyblion gymdeithasu y tu allan i'w unedau teuluol a sicrhewch fod eich plentyn yn osgoi cyfarfodydd torfol gyda'u ffrindiau.

**Prydiau Ysgol am Ddim (PYDd):**
O ddydd Llun, Ebrill 6ed fe fydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno system talebau i'r teuluoedd hynny sydd yn derbyn Prydau ysgol am Ddim ac ni fydd yn rhaid i deuluoedd deithio i ysgol leol i dderbyn 'grab bag' fel y system flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol ddarparu PYDd dros gwyliau'r Pasg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ysgrifennu at deuluoedd sydd yn derbyn PYDd yn ystod y dyddiau nesaf i esbonio sut fydd y system newydd yn gweithredu.

Os ydych yn dymuno cysylltu gyda Pennaeth Blwyddyn neu aelod o'r tîm Cynnydd a Lles, dyma eu cyfeiriadau ebyst:

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 7: | Nia Francis: | NF@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 8: | Fflur Rowlands: | Ffr@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 9: | Rhian Davies: | RhD@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 10: | Fiona Harries: | FAH@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 11: | Catrin Edwards: | CE@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 12: | Gareth Thomas: | GT@ysgolplasmawr.cymru |
| Blwyddyn 13: | Aled James: | AJ@ysgolplasmawr.cymru |
| Pennaeth Cynorthwyol: | Paul Harris: | PH@ysgolplasmawr.cymru |
| Arweinydd Cynnydd a Lles: | Helen Stiff: | HS@ysgolplasmawr.cymru |
| Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol: | Ruth Davies: | RD@ysgolplasmawr.cymru |
| Anogwr Dysgu: | Rebecca Rigby: | RR@ysgolplasmawr.cymru |
| Swyddog Teulu: | Karen Salter: | KS@ysgolplasmawr.cymru |
| Swyddog weinyddol: | Stephanie Johns: | Sjohns@ysgolplasmawr.cymru |

Cofion cynnes a byddwch ddiogel

John Hayes
Pennaeth

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

April 2nd, 2020

**COVID-19 Coronavirus – an update**

Dear Parent / Guardian

The end of the Spring term this year has a very different feel to it for obvious reasons. The school corridors and playground have been eerily quiet for a fortnight and it was with sadness and a great deal of uncertainty that the school gates were shut yesterday for an indefinite period.

The COVID-19 pandemic is a world-wide health emergency and we all accept and appreciate our responsibility in the fight to reduce the risk of spreading the virus by having to stay at home and implement social distancing.

This emergency has already had far-reaching consequences: the cancellation of GCSE, AS and A level exams and further repercussions for our Year 10 and Year 12 pupils who are in the middle of their exam courses, the cancellation of school visits and excursions, as well as the cancellation of the Urdd and National Eisteddfodau. These are all particularly disappointing to our pupils and staff but considering the greater picture, they are matters that we can fully understand and accept in order to fight this unprecedented health emergency.

We have all had to become quickly accustomed to working from home using electronic communication platforms to communicate with one another. Teachers and pupils have quickly adapted to this and I am delighted that all possible means of communication between teachers and pupils are working well. This is allowing teachers to set and assess work, and pupils to complete and present work. Further work will be set for pupils in Years 7 – 9 on Monday, April 20th and students in Years 10 and 12 will be given further guidance on how to proceed with studying the next parts of their exam courses. Please encourage your child/children to check their Edulink, Outlook email and Teams accounts regularly in order to receive the latest information from their teachers. After the Easter holiday we will be contacting individual parents if their children have not been communicating with their teachers or have not presented work.

Pupils in Year 11 will soon receive a package of information which will help them to prepare for their AS or BTEC studies in our Sixth Form. Individual departments will include a list of background reading material or research-based ideas that will benefit them at the beginning of their AS or Level 3 BTEC courses in Plasmawr in the autumn term.

It is business as usual for the school albeit not on the school site and if you have any concern or queries about any aspect of school life, please contact your child's Head of Year or a member of the pastoral team through email, a list of which is included below. I am in regular contact with Dr Redknap, our Chair of

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Governors, who has offered her full support to the school and we are continuing to recruit staff for September through electronic means.

The emphasis however for the next fortnight is for everyone to treat the Easter holidays as a holiday and to put aside school work for a period of time. Please encourage your children to relax, to be creative and to do enjoyable activities. We'll shortly send you some ideas. It has been and continues to be an extremely stressful, challenging and uncertain period for all of us as we come to terms with a new way of living on a daily basis and it is essential that pupils, parents and staff have an opportunity to rest and relax over the holiday period.

I sincerely hope that every member of the school community is managing to stay healthy both physically and mentally under these difficult circumstances and that we are all managing to abide by the national guidelines of staying at home and social distancing.

**Free School Meal Provision (FSM):**

The collection of packed lunch grab bags will stop this Friday, 3rd April. Welsh Government have asked Local Authorities to continue to support children eligible for FSM over the Easter Break. Over the next few days, if you have a child eligible for a Free School Meal you will receive a letter detailing how you may redeem a voucher to the value of £40 as a contribution towards your food needs over the Easter period.

If you need to discuss any welfare issues then plesase contact the relevant staff:

| | | |
|---|---|---|
| Year 7: | Nia Francis: | NF@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 8: | Fflur Rowlands: | Ffr@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 9: | Rhian Davies: | RhD@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 10: | Fiona Harries: | FAH@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 11: | Catrin Edwards: | CE@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 12: | Gareth Thomas: | GT@ysgolplasmawr.cymru |
| Year 13: | Aled James: | AJ@ysgolplasmawr.cymru |
| Assistant Headteacher: | Paul Harris: | PH@ysgolplasmawr.cymru |
| Progress Leader: | Helen Stiff: | HS@ysgolplasmawr.cymru |
| SENCO: | Ruth Davies: | RD@ysgolplasmawr.cymru |
| Learning Coach: | Rebecca Rigby: | RR@ysgolplasmawr.cymru |
| Family support officer: | Karen Salter: | KS@ysgolplasmawr.cymru |
| Administrative Assistant: | Stephanie Johns: | Sjohns@ysgolplasmawr.cymru |

Kind regards and please stay safe

John Hayes
Headteacher